

Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg trwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg). Rhestrir y safonau a gyflwynwyd i Gyngor Dinas Casnewydd yn 'Hysbysiad Cydymffurfio'r Cyngor - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.

Crëwyd y ddogfen hon i gydymffurfio â'r safonau canlynol y mae dyletswydd ar Gyngor Dinas Casnewydd i gydymffurfio â hwy - 157, 163, 169 a 159, 165, 171. Bydd y ddogfen hon yn nodi sut rydym yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaethau, safonau llunio polisi a'r safonau gweithredol a gafodd y Cyngor gan gomisiynydd y Gymraeg. Mae hefyd yn nodi ein trefniadau ar gyfer goruchwylio, hyrwyddo a hwyluso'r safonau hyn.

Mae copi o'r Hysbysiad Cydymffurfio sy'n rhestru'r safonau a roddwyd i'r Cyngor ac y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon ar gael [yma](#)

Rydym yn nodi isod y mesurau ychwanegol rydym wedi'u gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion newydd o ganlyniad i Safonau'r Gymraeg.

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

EIN HYMRWYMIAD

NODI DEWIS IAITH

Byddwn yn cofnodi dewis iaith ar y pwynt cyswllt cyntaf ac yn hwyluso hynny wedyn.

GOHEBIAETH

Pan dderbynnir gohebiaeth yn Gymraeg, neu lle nodir ffafriaeth ar gyfer gohebiaeth yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg

GALWADAU FFÔN

Caiff galwadau ffôn eu hateb gyda chyfarchiad dwyieithog, ac ymdrinnir â hwy yn Gymraeg, naill ai gan yr unigolyn sy'n ateb y ffôn neu drwy gyfeirio'r alwad at siaradwr Cymraeg

GWASANAETHAU DERBYNFA

Bydd ymwelwyr yn ein derbynfeydd yn cael eu cyfarch yn ddwyieithog a byddant yn gallu cael gwasanaeth Cymraeg

CYFARFODYDD

Pan fo angen, byddwn yn hwyluso cyfarfodydd cyfrwng Cymraeg

FFURFLENNI A DOGFENNAU

Bydd dogfennau a ffurflenni, sy'n ofynnol gan y Safonau ac a restrir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio, ar gael yn ddwyieithog

ARWYDDION A HYSBYSIADAU

Wrth godi arwyddion newydd, byddant yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf

GWEFANNAU A GWASANAETHAU AR-LEIN

Bydd gwefan y Cyngor, modern.gov ac unrhyw geisiadau ar-lein a ddatblygir gan y Cyngor ar gael yn ddwyieithog

DYFARNU GRANTIAU

Croesewir ceisiadau am grantiau'n Gymraeg, cânt eu hasesu yn Gymraeg a'u hystyried mewn perthynas â chyfleoedd i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg

DYFARNU CONTRACTAU

Bydd contractau'n datgan bod yr un Safonau Iaith mewn grym ar gyfer pob darparwr trydydd parti sy'n darparu gwasanaethau'r cyngor.

CYRSIAU A GYNIGIR GAN GORFF

Gofynnir i'r dysgwyr am eu dewis iaith wrth fynychu cyrsiau ac fe'i hwylusir lle bo modd

HYFFORDDIANT CYMRAEG

Rydym yn cynnig cyfleoedd i'r holl staff ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg ac rydym yn cynorthwyo dysgwyr a siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio eu sgiliau iaith.

EIN GWEITHGAREDDAU

- Mae tudalennau Mewnwrwyd Cymraeg yn cynnwys canllawiau a thempledi perthnasol i gynorthwyo staff i gydymffurfio â'r Safonau'r Gymraeg
- Mae gennym nifer o brosesau ar waith i hwyluso'r gwaith o gofnodi dewis iaith ar draws y Cyngor
- Bydd holl negeseuon e-bost allanol y Cyngor a phapurau pennawd swyddogol y Cyngor yn cynnwys y datganiad canlynol a'r Cynnig Gweithredol yn y troednodyn:
 - *Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg*
 - *The Council welcomes correspondence in English and Welsh.*
- Mae'r Cyngor yn mynd ati i geisio recriwtio siaradwyr Cymraeg mewn rolau sy'n delio â'r cyhoedd
- Mae canllawiau staff wedi'u cyhoeddi ar gynnal cyfarfodydd dwyieithog (allanol a mewnol), gan gynnwys Taflen Ymadroddion gyda chyngor, awgrymiadau ac ymadroddion
- Mae agendâu a chofnodion dwyieithog yn cael eu lanlwytho drwy wefan Modern.Gov Cyngor Dinas Casnewydd
- Mae gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gyfer pob cyfarwyddiaeth a gwasanaeth ar gael a gellir eu harchebu drwy'r Porth Cyfieithu ar ein Mewnwrwyd
- Mae gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig ar gael drwy'r Porth Cyfieithu ar ein Mewnwrwyd
- Mae'r geiriad canlynol wedi'i gynnwys ar ddogfennau Saesneg pan fo'n berthnasol:
 - *Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English*
 - *Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English*
- Mae'r holl staff yn cael Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith sy'n cynnwys ymwybyddiaeth o'r Safonau, beth mae'r rhain yn ei olygu i'w rôl wrth ddarparu gwasanaethau, a hanes diwylliant y Gymraeg
- Mae arwyddion derbynfa, llofnodion e-bost a logos Cymraeg ar gael i staff ar y dudalen fewnrwyd Cymraeg yn ogystal â chopi o'r safonau llawn, adroddiadau monitro blynyddol, a dolen at borthol cyfieithu ar-lein
- Mae Swyddog Polisi'r Gymraeg ar gael i roi cyngor ac arweiniad i'r holl staff ac aelodau etholedig yn y Cyngor
- Cynhwysir ymrwymadau Cymraeg y Cyngor fel rhan o raglen sefydlu pob dechreuwr newydd
- Mae tudalennau Mewnwrwyd Cymraeg yn cynnwys canllawiau a thempledi perthnasol i gynorthwyo staff i gydymffurfio â'r Safonau'r Gymraeg
- Mae gennym nifer o brosesau ar waith i hwyluso'r gwaith o gofnodi dewis iaith ar draws y Cyngor

MONITRO

- Adroddir ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn weithredol a monitro'r Safonau i Grŵp Gweithredu'r Gymraeg y Cyngor sy'n cael ei gadeirio gan uwch swyddog ac a fynychir gan gynrychiolwyr priodol o bob gwasanaeth
- Rhoddir goruchwyliaeth strategol i'r ddarpariaeth Gymraeg gan yr Aelod Etholedig gyda'r Gymraeg yn rhain o'i bortffolio ac Aelod Etholedig sydd yn bencampwr yr iaith Gymraeg
- Caiff perfformiad adrannau o ran y Gymraeg ei fonitro drwy gyfuniad o wiriadau iechyd adrannol, cynlluniau gweithredu, ymarferion cwsmer cudd a chadw cofnodion
- Mae'r Cyngor yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg sydd ar gael i'w weld ar-lein.
- Rydym yn cynnal cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i nodi arfer da a meysydd i'w gwella

Safonau Llundio Polisi

EIN HYMRWYMIAD

Byddwn yn ymgorffori ystyriaethau'r Gymraeg yn ein prosesau polisi a phenderfyniadau ar draws y Cyngor

EIN GWEITHGAREDDAU

Mae ein proses Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb yn cyfeirio at Safonau'r Gymraeg ac yn rhoi arweiniad ynghylch ymgynghori priodol ac yn gorchymyn ystyried yr effaith ar y Gymraeg

Mae'r holl Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb a gwblhawyd ar gael ar wefan y Cyngor

MONITRO

Mae Swyddog Polisi'r Gymraeg y Cyngor ar gael i roi cyngor ar bolisiau a phenderfyniadau allweddol

Mae pob adroddiad i Aelodau'r Cabinet, y Cabinet a'r Cyngor yn gofyn am ystyried Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb

Safonau Gweithredol

EIN HYMRWYMIAD

Polisi'r rhyngrwyd

Rydym wedi cyhoeddi ac rydym yn gweithredu polisi mewnlol ar gyfer staff sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Polisiâu Adnoddau Dynol

Mae polisiâu AD perthnasol wedi'u cyfieithu a'u cyhoeddi ar y fewnrwyd i'r staff eu defnyddio.

Cwynion a Disgyblu

Mae'r ddwy broses ar gael i staff drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Cyngor yn hwyluso hyn yn ôl yr angen ac yn sicrhau bod dogfennau ar gael yn ddwyieithog, ac y cynhelir cyfarfodydd yn Gymraeg drwy ddefnyddio cyfieithu ar y pryd os oes angen.

Meddalwedd gwirio sillafu Gymraeg

Mae gan y Cyngor danysgrifiad Cysill a Cysgliad sydd ar gael i bob aelod o staff drwy'r llwyfannau TG.

Hyfforddiant Gymraeg

Gall staff fanteisio ar amrywiaeth o gyrsiau ac fe'u cefnogir i fynychu dosbarthiadau Gymraeg, sy'n cael eu blaenoriaethu ar gyfer staff rheng flaen a'r rhai sy'n delio â'r cyhoedd.

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith

Mae aelodau'r staff yn mynychu hyfforddiant wyneb yn wyneb sy'n rhoi trosolwg ar gyfeiriadau hanesyddol a diwylliannol, gofynion deddfwriaethol a rhwymedigaethau'r Cyngor dan Safonau'r Gymraeg.

Asesu gofynion ieithyddol ar gyfer pob swydd wag.

Mae rheolwyr a deiliaid swyddi gwag yn cwblhau Ffurflen Asesu ar gyfer pob rôl, gan nodi lefel y gallu ieithyddol yn y Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer y swydd.

Arwyddion a arddangosir mewn gweithle sefydliad

Mae canllawiau ar arwyddion a hysbysiadau mewnlol ar y fewnrwyd a dylai staff fod yn ymwybodol o'r gofynion hyn, bydd templedi ar gael ar y fewnrwyd.

EIN GWEITHGAREDDAU

Mae'r adran Adnoddau Dynol wedi creu dogfen ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn fewnlol ac mae wedi'i chyhoeddi ar y fewnrwyd

Bydd Ymgysylltu â Staff yn cynnwys ymgyrch gyfathrebu â'r holl staff yn rhoi gwybod iddynt am eu hawliau o dan y safonau, ac yn gofyn iddynt gofnodi eu sgiliau Gymraeg a'u dewis iaith.

Codir ymwybyddiaeth staff drwy hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith.

Bydd y fewnrwyd yn cael ei gwella a'i datblygu ymhellach i ddarparu canllawiau / polisiâu, dogfennau a thempledi i gynorthwyo staff.

Mae'r Gymraeg, gan gynnwys y Safonau a'u gofynion o ran y Cyngor bellach yn cael eu trafod yn y rhaglen sefydlu staff newydd.

MONITRO

Mae strwythurau Perfformiad Corfforaethol yn ymgorffori mesurau iaith Gymraeg ar draws meysydd gwasanaeth ac adroddir arnynt yn flynyddol.

Trafodir Cynlluniau Gweithredu yng Ngrŵp Gweithredu'r Gymraeg.

Mae gan rai adrannau gamau gweithredu generig sy'n cael eu monitro drwy archwiliad mewnol neu ymarfer cwsmer cudd.

Mae gan eraill gynllun gwasanaeth penodol gyda Safonau a briodolir yn uniongyrchol iddyn nhw.

DRAFT